DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Happy Teeth, Trefynwy

Dyddiad yr Arolygiad: 12 Hydref 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 10 Chwefror 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-8407-8


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 2

2. Cyd-destun ..... 3

3. Crynodeb ..... 4

4. Canfyddiadau ..... 5

Ansawdd Profiad y Claf ..... 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ..... 7

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... 12

5. Y Camau Nesaf ..... 13

6. Methodoleg ..... 14

Atodiad A ..... 16

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Happy Teeth yn 29 Stryd Mynwy, Trefynwy, NP25 3EF, ar 12 Hydref 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Happy Teeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill. Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Happy Teeth yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig, ac mae wedi'i leoli yn Nhrefynwy.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, un derbynnydd, un hylenydd a dwy nyrs.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Happy Teeth yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion, a bod y cleifion yn uchel eu parch tuag at y practis.

Beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd boddhad cleifion yn uchel
- Roedd y wybodaeth i gleifion, gan gynnwys deunydd hyrwyddo iechyd, ar gael yn hygyrch
- Roedd polisïau a gweithdrefnau cyfredol er mwyn gwarchod diogelwch cleifion ar gael
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Roedd trefniadau ar waith i gynnal sganiau pelydr-X yn ddiogel
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.

Beth fyddai'r practis yn gallu ei wella:

- Cwblhau adolygu asesiadau risg
- Diweddaru'r dystysgrif pum mlynedd ar gyfer gwifrau trydan
- Cynnal adolygiad o'r prosesau ar gyfer cadw cofnodion
- Cynnal archwiliad diogelwch ar gyfer y staff clinigol i'w ddiweddaru bob tair blynedd
- Gosod arwyddion rhybuddio am beryglon lle defnyddir offer pelydr-X
- Diweddaru'r archwiliadau brechiad a gynhelir bob pum mlynedd.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Canfuom fod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gawsom drwy holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol yn gyffredinol.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn y practis. Cafodd cyfanswm o 19 o holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd atom. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> *"Mae hwn yn bractis rhagorol. Rydw i'n glaf nerfus ac maen nhw bob amser yn rhoi sicrwydd ac yn darparu gwasanaeth ardderchog."*
>
> "Mae'r holl staff yn ddymunol ac yn groesawgar iawn ac yn gwneud i chi deimlo'n gartrefol. Hapus iawn ar y cyfan."
>
> *"Mae'r staff yn gyfeillgar a chymwynasgar iawn."*
>
> *"Dw i wastad wedi bod yn fodlon iawn ar unrhyw ofal neu driniaeth gan y practis."*

Gofal gydag urddas

Gwelsom dystiolaeth oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat, oddi wrth y cleifion eraill, os oes angen. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth a gawsom yn holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol yn gyffredinol, a nododd cleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff.

Roedd ystod o wybodaeth am y practis yn cael ei harddangos ac roedd taflenni ar gael ar gyfer cleifion. Gwelsom fod rhestr brisiau triniaethau ar gael yn y ffeiliau gwybodaeth i gleifion, fel bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau. Gwnaethom gynghori y dylid arddangos y rhestr brisiau mewn man fwy blaenllaw yn yr ystafell aros ac fe gafodd hyn ei gwblhau yn ystod ein hymweliad.

Gofal amserol

Mae'r practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion mewn holiaduron AGIC nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintydd. Roedd y rhif ffôn i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn cael ei arddangos ar y wefan ac yn y ffenestr er mwyn i gleifion allu cael mynediad at ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau.

Cadw’n iach

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwnaethom sylwi bod taflenni/posteri ac arddangosfeydd hybu iechyd da a manwl yn y man aros. Roedd ffocws tymhorol wedi'i roi yn ymwneud â'r ymgyrch 'Stoptober' 2016 ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu. Roedd siart siwgr, a oedd yn addas i blant ac yn llawn gwybodaeth o ran gwella iechyd y geg, a dywedwyd wrthym fod arddangosfeydd cleifion blaenorol wedi cynnwys ymwybyddiaeth o ganser y geg. Roedd samplau o bast dannedd ar gael am ddim i gleifion eu casglu o'u gwirfodd. Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn gymorth wrth gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain ac roedd ffocws pendant yn cael ei roi ar hyn yn y ddeintyddfa.

Gofal unigol

Roedd holiadur ffurfiol ar waith er mwyn canfod ac adolygu adborth gan gleifion, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd canlyniadau'r arolygon yn cael eu hystyried ac roedd camau'n cael eu cymryd er mwyn ymateb i unrhyw welliannau a awgrymwyd. Cafodd tystebau cleifion eu rhoi ar wefan y practis, a oedd yn rhoi rhywfaint o adborth gan gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid dosbarthu holiaduron cleifion o bryd i'w gilydd, ac y dylid rhoi'r canlyniadau i gleifion, er mwyn dangos y camau gweithredu a'r gwersi a ddysgwyd, i atgyfnerthu'r prosesau sydd eisoes ar waith ymhellach.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn i gleifion leisio pryderon (cwynion). Roedd llyfr pryderon ar gael yn y dderbynfa a dywedwyd wrthym nad oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion hyd yn hyn. Roedd blwch awgrymiadau ar gael hefyd yn y man aros. O arsylwi a thrafod â'r deintydd, roedd yn amlwg bod anghenion cleifion unigol yn cael eu hystyried yn dda.

Mae'r ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf ac felly nid oes mynediad i'r anabl, ond dywedwyd wrthym fod y ddeintyddfa'n cyfeirio unrhyw gleientiaid ag anghenion symudedd at ddeintyddfa arall, gyda'r bwriad o ddiwallu eu hanghenion yn rhywle arall.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Canfuom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu yn dda a bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Roedd yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel. Cyflawnwyd gwiriadau ac archwiliadau i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel ac effeithiol. Roedd yr holl gofnodion clinigol yn cael eu cynnal yn dda.**

### Gofal diogel

*Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda. Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y practis yn amlwg yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod o amgylch y practis ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus a gwastraff peryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel.

Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)[1] a gweld bod dalenni data diogelwch wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd a bod asesiadau risg a oedd yn benodol i'r gweithle a'r amgylchedd wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen adolygu'r asesiad risg ar gyfer storio eitemau COSHH yn ddiogel ac yn sicr.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

***Dylid adolygu a diweddaru'r asesiadau risg ar gyfer storio sylweddau COSHH yn ddiogel ac yn sicr.***

---

[1] COSHH yw'r ddeddf sy'n mynnu bod cyflogwyr yn rheoli sylweddau peryglus i iechyd. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch trwy ddilyn y ddolen ganlynolhttp://www.hse.gov.uk/cosh/index.htm

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod tystysgrifau diogelwch nwy hefyd ar gael. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru'r dystysgrif pum mlynedd ar gyfer gwifrau trydan yr adeilad. Gwelsom nad oedd cofnodion yn cael eu cadw o'r gwiriadau dyddiol a oedd yn cael eu gwneud ar gyfer y cyfarpar cywasgu.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

**Diweddaru'r dystysgrif pum mlynedd ar gyfer gwifrau trydan ac anfon copi at AGIC.**

***Cadw cofnod o'r gwiriadau dyddiol ar gyfer y cywasgydd.***

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd i ni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith a oedd yn seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[2] Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol gyda sinc benodol i olchi dwylo
- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menyg tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael eu defnyddio
- Y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer mewn cyflwr da yn ôl pob golwg
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profion dyddiol
- Roedd offer wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dyddio.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau, yn unol ag argymhellion canllawiau Memorandwm Iechyd Technegol Cymru 01-05, sy'n benodol i Gymru. Gwelsom fod yr holl nyrsys deintyddol wedi cwblhau

[2] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

hyfforddiant dadheintio, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Fodd bynnag, gwelsom fod anghysondeb o ran y ffordd yr oedd gwiriadau awtoclaf yn cael eu cynnal a'u cadw. Rydym yn argymell y dylai'r hylenydd sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cadw yn unol â'r broses y mae'r deintydd yn ei dilyn yn y practis.

Hefyd, gwelsom fod angen diweddaru archwiliadau brechiad pum mlynedd tri aelod o'r staff. Rhaid cadw cofnod o imiwnedd a sicrhau ei fod yn gyfredol a/neu fod tystiolaeth o imiwnedd gydol oes ar gael pan fo hynny'n berthnasol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Cynnal dull cyson o gadw cofnod ar gyfer y gwiriadau awtoclaf.***

**Dylid cynnal archwiliadau brechiad pum mlynedd a chadw cofnodion a/neu gadw cofnodion o imiwnedd gydol oes yn y practis.**

*Cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a chyfarpar dadebru*

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel ac ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg). Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd gan y practis ddigon o staff cymorth cyntaf a oedd yn gyfredol o ran eu hyfforddiant o fewn y tîm.

Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng wedi eu trefnu'n dda, gyda siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol. Gwnaethom argymell y dylid cadw'r llyfr cofnodion ar gyfer gwirio'r stoc o gyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys gyda'r cyffuriau. Roedd angen ystyried pa mor ddiogel oedd lleoliad y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid adolygu'r asesiadau risg a'u diweddaru i ystyried pa mor ddiogel yw'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys rhag mynediad er mwyn lleihau'r risg o bobl heb ganiatâd yn cael mynediad.***

*Diogelu*

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hybu a diogelu llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisïau diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn

plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff fynegi unrhyw bryderon. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer aelodau posibl o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, a bod tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnwys yn rhan o'r gwiriadau hynny.

Er nad yw hyfforddiant diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd tair blynedd yn ofynnol i bob aelod o'r staff, dylai'r deintydd ystyried sut y mae’n sicrhau ei hun bod diogelu'n cael ei sicrhau yn absenoldeb gwiriadau tair blynedd rheolaidd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, dylai deintyddion sydd wedi'u cofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat gynnal gwiriad tair blynedd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwelsom fod angen adnewyddu'r gwiriad ar gyfer y deintydd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

**Dylid adnewyddu'r gwiriadau diogelu ar gyfer y deintydd bob tair blynedd a chadw cofnodion.**

*Offer radiograffeg*

Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar waith a gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu, er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd y dogfennau gwasanaethu'n nodi'n glir y gwasanaeth, y cyfnodau graddnodi na'r dyddiad dyledus nesaf. Er bod cytundeb gwasanaethu dilys ar waith am gyfnod o dair blynedd, er mwyn cyflawnder ac eglurder, dylai'r deintydd sicrhau bod y dystysgrif gwasanaeth radioleg yn nodi'n glir y cyfnod graddnodi a gwasanaethu.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cadarnhad gan y darparwr contract gwasanaeth o ddyddiad gwasanaethu nesaf yr offer radioleg er cysondeb a chyflawnder, a dylid anfon copi ohono at AGIC.***

Roedd cynlluniau ar waith ar gyfer ardaloedd rheoli ymbelydredd. Gwelsom fod y deintydd a'r nyrsys deintyddol a oedd ynghlwm wrth y broses o gynnal sganiau radiograffeg wedi cwblhau’r hyfforddiant gofynnol. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[3] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio

---

[3] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

(Datguddio Meddygol) 2000. Gwelsom fod archwiliadau sicrhau ansawdd radiograffeg yn cael eu cynnal gan y deintydd. Mae hyn yn ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwelsom fod angen arwyddion i ddangos ble roedd y mannau rheoledig pelydr-X er lles iechyd a diogelwch cleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid sicrhau bod arwyddion rhybuddio am beryglon ar gael ar gyfer y mannau rheoledig pelydr-X.***

*Cofnodion cleifion*

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol a gwnaethom siarad â'r ymarferydd deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd da. Roedd hyn yn cynnwys cadw cofnodion manwl o hanesion cymdeithasol cleifion, diweddaru hanesion meddygol, a chadw manylion gwiriadau priodol ar gyfer archwiliadau clinigol y deintgig (archwiliadau periodontol sylfaenol).

*Gofal effeithiol*

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roedd polisi cynllunio archwiliadau clinigol ar waith. Gwelsom fod y practis yn ymgymryd â'i brosesau arolygu mewnol ei hun a'i fod hefyd yn ymgymryd ag archwiliadau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau rheoli heintiau a radiograffau.

Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried cynllunio archwiliadau adolygu gan gymheiriaid i fonitro a chyfrannu ymhellach at ansawdd y gofal a ddarperir.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd y practis deintyddol yn cael ei redeg yn effeithlon gan dîm bach o staff profiadol, proffesiynol a brwdfrydig. Roedd gan y practis weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd priodol ar waith er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi mewn modd diogel ac amserol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu swyddi.**

Gwelsom fod y ddeintyddfa'n cael ei rhedeg yn dda. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy edrych ar amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau ag aelodau o'r tîm deintyddol. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd. Gwelsom fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys cael eu clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrifau AGIC wedi'u harddangos yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat.

Y deintydd sy'n gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd ar y cyfan. Roedd tîm y practis wedi'i hen sefydlu, ac roedd trosiant y staff yn isel. Roedd y staff y siaradom ni â nhw yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Gwelsom esiampl o gofnodion a oedd yn dangos bod staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd gan bob aelod o'r tîm deintyddol gyfrifoldeb unigol clir dros agweddau penodol ar y gwasanaeth.

Roeddem o'r farn bod angen ystyried gweithdrefnau diogelu cofnodion ymhellach er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â diogelu data. Rhoddodd y deintydd sicrwydd y byddai mynediad bysellbad yn cael ei drefnu ar gyfer y man lle mae rhai cofnodion yn cael eu cadw er mwyn gwella'r trefniadau presennol ar gyfer diogelu cofnodion.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

***Dylid adolygu asesiadau risg a'u diweddaru a dylid rhoi trefniadau ar waith i hyrwyddo gweithdrefnau diogelu cofnodion.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Happy Teeth yn mynd i’r afael â’r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[4] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[5] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol. Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

---

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Happy Teeth

## Dyddiad yr Arolygiad: 12 Hydref 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | Nid oes angen cynllun gwella. | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 7 | Dylid adolygu a diweddaru'r asesiadau risg ar gyfer storio sylweddau COSHH yn ddiogel ac yn sicr.<br>*Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (d) | Adolygwyd a diweddarwyd yr asesiadau risg. | Marina Taylor | Cwblhawyd |
| 9 | Diweddaru'r dystysgrif pum mlynedd ar gyfer gwifrau trydan ac anfon copi at AGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Prawf gwifrau wedi'i drefnu ar gyfer 26 Tachwedd. | Marina Taylor | Bydd tystysgrif yn cael ei |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989 (Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch)* | 2008<br>Rheoliad 14 (1) (d) | | | hanfon cyn gynted ag y bydd wedi cyrraedd. |
| 8 | Cadw cofnod o'r gwiriadau dyddiol ar gyfer y cywasgydd.<br>*Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysedd 2000* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (3) (b) | Mae llyfr cofnodion yn cael ei gadw bob dydd erbyn hyn. | Caroline<br>Morgan | Cwblhawyd |
| 9 | Cynnal dull cyson o gadw cofnod ar gyfer y gwiriadau awtoclaf.<br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (3) (b) | Erbyn hyn, mae gan yr hylenydd yr un system â'r nyrsys. | Caroline Morgan | Cwblhawyd |
| 9 | Dylid cynnal archwiliadau brechiad pum mlynedd a chadw cofnodion a/neu gadw cofnodion o imiwnedd gydol oes yn y practis.<br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliadau 14 (1) (b) ac 14 (6) | Roedd archwiliadau eisoes wedi'u cwblhau. Anfonwyd gwaith papur at yr arolygydd y diwrnod ar ôl yr arolygiad. | Marina Taylor | Cafodd gwaith papur ei ail-anfon at AGIC heddiw. |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Dylid adolygu'r asesiadau risg a'u diweddaru i ystyried pa mor ddiogel yw'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys rhag mynediad er mwyn lleihau'r risg o bobl heb ganiatâd yn cael mynediad.<br>*Llyfr Fformiwlâu Ymarferwyr Deintyddol* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (b) | Asesiadau risg wedi'u hadolygu a chloeon wedi'u gosod ar ddrysau. | Marina Taylor | Cwblhawyd |
| 10 | Dylid adnewyddu'r gwiriadau diogelu ar gyfer y deintydd bob tair blynedd a chadw cofnodion.<br>*Canllaw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.1.6* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 13 (2) | Mae'r cais wedi'i anfon at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Marina Taylor | Yn y system |
| 10 | Mae angen cadarnhad gan y darparwr contract gwasanaeth o ddyddiad gwasanaethu nesaf yr offer radioleg er cysondeb a chyflawnder, a dylid anfon copi ohono at AGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (3) (b) | Anfonwyd llythyr at yr arolygydd y diwrnod ar ôl yr arolygiad. | Marina Taylor | Llythyr wedi'i atodi eto. |
| 10 | Dylid sicrhau bod arwyddion rhybuddio am beryglon ar gael ar gyfer y mannau rheoledig pelydr-X. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Arwyddion wedi'u cael a'u gosod. | Marina Taylor | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rheoliad 14 (1) (d) | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 12 | Dylid adolygu asesiadau risg a'u diweddaru a dylid rhoi trefniadau ar waith i hyrwyddo gweithdrefnau diogelu cofnodion.<br>*Deddf Diogelu Data 1998* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (b) | Asesiadau risg wedi'u hadolygu a chloeon wedi'u gosod ar ddrysau. | Marina Taylor | Cwblhawyd |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ......................Marina Taylor.........................................................

**Teitl:** ...........Prif ddeintydd..................................................................

**Dyddiad:** .............................21/11/2016........................................................